# Anabledd Dysgu Cymru
## Adolygiad Blynyddol

### Ebrill 2024 i Fawrth 2025



**Rydyn ni am i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio**

**Y tu mewn:**
- Llywio a Dylanwadu ar Engage to Change
- Pobl yr 21ain Ganrif
- Hawdd ei Ddeall Cymru
- Digwyddiadau a hyfforddiant
- Dylanwadu ar bolisi
- Ffrindiau Gig Cymru
- Senedd Ieuenctid Cymru, Cartrefi Nid Ysbytai, lleihau arferion cyfyngol a llawer mwy.

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Cynnwys


Negeseuon o groeso ........ 3

Llywio a Dylanwadu ar Engage to Change ........ 5

Pobl yr 21ain Ganrif ........ 8

Hawdd ei Ddeall Cymru ........ 12

Digwyddiadau a hyfforddiant ........ 14

Dylanwadu ar bolisi ........ 16

Ffrindiau Gig Cymru ........ 18

Ein staff ........ 21

Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau ........ 22

Sut y gwnaethon ni wario ein harian ........ 23

Ein blwyddyn mewn lluniau ........ 24


*Ar y clawr: staff a chyfranogwyr Engage to Change gyda Jack Sargeant AS a'r diweddar Hefin David AS, eiriolwr brwd dros bobl ag anabledd dysgu.*








## Cadw mewn cysylltiad

| | |
|---|---|
| Gwefan | www.ldw.org.uk/cy/ |
| E-bost | enquiries@ldw.org.uk |
| Facebook | /learningdisabilitywales |
| X/Twitter | @LdWales |
| YouTube | /@LearnDisabilityWales |
| LinkedIn | /learning-disability-wales |
| Instagram | /learningdisabilitywales |
| Bluesky | @ldwales |


Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien, Caerdydd CF14 5GG

Ffôn: 029 2068 1160
Cwmni cyfyngedig trwy warant: 02326324
Elusen Gofrestredig: 1062858
Rhif Cofrestredig TAW: 762 4559 11



# Neges o groeso

gan ein Cadeirydd, Tracy Hammond

## Uchafbwyntiau

- Cawson ni nifer uchel o geisiadau o amrywiaeth o gefndiroedd i ymuno â'n bwrdd ymddiriedolwyr.
- Daeth ein haelodaeth a'n bwrdd ymddiriedolwyr yn fwy amrywiol.

**Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn dyst i'n gallu ar y cyd i ddal ein tir mewn amseroedd heriol. Wrth i'r dirwedd o'n cwmpas barhau i newid, mae Anabledd Dysgu Cymru wedi aros yn sefydlog, wedi'i arwain gan werthoedd clir, perthnasoedd cryf, ac ymrwymiad a rennir i wneud gwahaniaeth.**

Uchafbwynt arbennig yw'r nifer digynsail o geisiadau i ymuno â'n bwrdd ymddiriedolwyr. Roedd yn fraint croesawu cynifer o aelodau bwrdd newydd a gwerthfawr iawn y mae eu harbenigedd a'u hymroddiad amrywiol eisoes wedi cyfoethogi ein cyfeiriad strategol. Mae eu presenoldeb yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth gynyddol o'n gwaith a chryfder ein pwrpas cyffredin.

Mae ein haelodaeth wedi ffynnu hefyd. Mae'r amrywiaeth gynyddol yn ein cymuned yn ymgorffori ein gweledigaeth o wneud Cymru'r wlad orau yn y byd i bobl ag anableddau dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio. Mae'r twf parhaus hwn yn cryfhau ein llais ar y cyd ac yn ehangu ein heffaith.

Daeth ein dwy gynhadledd fywiog yn Llandudno ac Abertawe â llawer o bobl at ei gilydd gan sbarduno sgyrsiau bywiog a chysylltiadau newydd. Gyda chynifer o leisiau a syniadau yn yr ystafell, roedd hi'n wir yn teimlo fel dathliad o'n hangerdd a'n gwaith tîm a rennir.

Fel y Cadeirydd, rwy'n falch iawn o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd. Mae ein dylanwad yn parhau i dyfu ac mae ein gwerthoedd yn parhau i fod yn gadarn. Diolch i'r holl staff, aelodau, cefnogwyr, ymddiriedolwyr a phartneriaid am eich cefnogaeth barhaus. Efallai y bydd heriau yn y flwyddyn i ddod, ond gyda'n gilydd, byddwn yn eu hwynebu gyda hyder ac optimistiaeth.





# Neges o groeso

gan ein Prif Weithredwr, Zoe Richards

## Uchafbwyntiau

- Fe wnaethon ni ei gwneud hi'n haws dod yn aelod o Anabledd Dysgu Cymru, felly mae ein haelodaeth yn fwy amrywiol a gallwn ni gysylltu â mwy o bobl.
- Rydyn ni'n falch o sut mae ein gwaith yn helpu i wella bywydau pobl ag anabledd dysgu.

**Yn Anabledd Dysgu Cymru, mae ein cenhadaeth yn parhau'n glir: gwneud Cymru'r wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio. Roedd y flwyddyn hon yn drobwynt o ran y ffordd rydyn ni'n cysylltu, gyda ffocws o'r newydd ar gyrraedd mwy o bobl a chynnig gwell cefnogaeth i'n haelodau.**

Rydyn ni'n cydnabod yr angen am ymgysylltu mwy cynhwysol ac ymatebol, felly gwnaethon ni drawsnewid ein model aelodaeth i adlewyrchu'r lleisiau amrywiol yn ein cymuned. Mae'r newid hwn eisoes yn dod â phobl yn agosach at ei gilydd – gan gryfhau perthnasoedd, sbarduno cydweithrediadau newydd, a chreu ymdeimlad dyfnach o berthyn ar draws ein gwaith.

Mae'r adroddiad hwn yn dathlu effaith y newidiadau hynny, trwy straeon o wydnwch, mewnwelediadau sy'n seiliedig ar ddata, a'r prosiectau sy'n llunio Cymru well i bobl ag anabledd dysgu. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd i lawer o sefydliadau, ond rydyn ni wedi gweithio'n galed i gefnogi ein haelodau a dylanwadu ar newid. Rydyn ni'n falch o'n cyflawniadau, o gefnogi'r ymgyrch bwerus Bywydau wedi'u Dwyn a datblygu prosiectau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Engage to Change sy'n dylanwadu ar bolisi cyflogaeth, i gael hwyl a herio normau cymdeithasol trwy Ffrindiau Gig a rhannu'r hyn yr ydyn ni wedi'i ddysgu trwy ein cynadleddau blynyddol – rydyn ni wedi dal ati.

Diolch am fod yn rhan o'r daith hon. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n adeiladu dyfodol mwy cynhwysol – un cysylltiad ar y tro.



www.engagetochange.org.uk
/engagetochangewales
@Engage_2_Change

## Uchafbwyntiau

- 3 digwyddiad 'Adnabod Fi, Adnabod Chi' a gynhaliwyd ledled Cymru ac 1 digwyddiad 'amser holi' hollbleidiol ym Mae Caerdydd.
- Mae Prif Weinidog Cymru'n disgrifio canlyniadau Engage to Change fel "syfrdanol", ac yn ymrwymo i gynnwys cyflogaeth â chymorth yng nghynlluniau newydd Llywodraeth Cymru.
- Mae pob coleg Addysg Bellach yng Nghymru bellach yn cynnig interniaethau â chymorth.

**Gwnaeth y tîm barhau i weithio'n agos gydag Aelodau o'r Senedd, Llywodraeth Cymru, cyflogwyr a sefydliadau eraill i sicrhau bod etifeddiaeth y prosiect yn parhau ar ôl i'r prosiect ddod i ben ar 31 Mawrth 2025.**

Rhoddodd Gerraint, ein Cennad, ac Angela, Rheolwr y Prosiect, dystiolaeth yn y Senedd, a gwnaethon nhw gyfrannu at adroddiad y Pwyllgor, 'Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Cau'r bwlch cyflogaeth anabledd yng Nghymru' (mae'r teitl hwn yn seiliedig ar un o ddyfyniadau Gerraint).

Gwnaethon ni weithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH) i gyflwyno digwyddiad ar heneiddio, cyflogaeth ac anableddau dysgu, a oedd yn cynnwys siaradwyr o Brifysgol Salamanca yn Sbaen.

Gwnaethon ni gyd-ysgrifennu adroddiad gyda NCMH o'r enw 'O wasanaeth i strategaeth: Strategaeth Hyfforddi Swyddi



Genedlaethol i Gymru' a chyd-gynhyrchu fideos hygyrch yn esbonio rhywfaint o ymchwil NCMH.

Yn sgil ein gwaith gyda Hefin David AS, gwnaeth y Prif Weinidog gydnabod yn y Senedd ganlyniadau "syfrdanol" prosiect Engage to Change a gwnaeth ymrwymiad i gynnwys cyflogaeth â chymorth a hyfforddiant swyddi yn y rhaglen cymorth cyflogadwyedd newydd yng Nghymru.

# Llywio a Dylanwadu ar Engage to Change




## Mapio cymorth cyflogaeth

Daeth hyn â gwybodaeth allweddol at ei gilydd am y gwasanaethau cymorth a'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael ledled Cymru, gan greu adnodd cynhwysfawr ar gyfer unigolion, teuluoedd a chyflogwyr. Gallwch chi weld yr adnodd ar wefan Engage to Change: engagetochange.org.uk o dan 'Chwilio am waith'.

## Cynllun peilot ReAct+

O ganlyniad i weithio gyda Llywodraeth Cymru, mae cynllun peilot ReAct+ wedi'i ddatblygu, a dechreuodd e ym mis Mawrth 2025. Mae'n cael ei gyflwyno gan Cymru'n Gweithio a'r asiantaeth gyflogaeth a gefnogir, ELITE, a bydd yn cefnogi oedolion ifanc a gyflogwyd yn flaenorol gan NCMH i drosglwyddo i gyflogaeth newydd.

## Twf Swyddi Cymru+

Mae cyflogaeth â chymorth a hyfforddi swyddi wedi'u prif ffrydio yn y rhaglen hon, gydag Agoriad ac ELITE yn darparu'r cymorth.

## Cymunedau am Waith+

Mae Cymunedau am Waith + yn rhaglen gyflogadwyedd gymunedol sy'n darparu cymorth mentora dwys 1-i-1 i gyfranogwyr sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau bod hyn yn cynnwys pobl ac unigolion anabl sy'n profi rhwystrau i gyflogaeth.

## Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd

O 2027 ymlaen, bydd Twf Swyddi Cymru+, ReAct+ a Chymunedau am Waith + yn cael eu disodli gan y Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd. Dywedodd y Prif Weinidog yn y Senedd fod yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect Engage to Change yn cael ei fwrw ymlaen, a bydd y rhaglen newydd hon yn cynnwys cymorth cyflogaeth/hyfforddwyr swyddi.

## Prentisiaethau a rennir â chymorth

Mae ELITE ac Agoriad yn parhau i hwyluso prentisiaethau a rennir â chymorth ar draws pob rhanbarth. Ar hyn o bryd, mae rhestr aros ar gyfer prentisiaethau â chymorth, gan fod y galw yn fwy na'r gyllideb. Bydd Medr (y Comisiwn ar gyfer Addysg ac Ymchwil Trydyddol) yn ceisio ehangu hyn y flwyddyn nesaf.

## Interniaethau â chymorth

Mae interniaethau â chymorth bellach yn cael eu darparu gan bob coleg Addysg Bellach yng Nghymru fel Llwybr 4 yn y cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf ein galwadau am gymorth hyfforddwr swyddi i gael ei ddarparu gan asiantaethau cyflogaeth arbenigol, mae rhai colegau bellach wedi symud i ffwrdd o hyn, gan ddweud ei fod wedi mynd yn rhy ddrud.

Gan nad oeddem yn gallu dylanwadu ar hyn ymhellach, bu Angela yn gweithio gyda Colegau Cymru i annog colegau i ymgymryd â'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Interniaethau â Chymorth (SIQAF) ac i'w staff gyflawni'r cymhwyster cyflogaeth â chymorth achrededig.

## Sioeau teithiol Adnabod Fi, Adnabod Chi

Aethon ni ar daith gyda 3 digwyddiad egnïol yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Llandudno. Ym mhob lle, gwnaethon ni daflu goleuni ar straeon gan gyfranogwyr, teuluoedd a chyflogwyr, wrth i ni dynnu sylw at brofiadau bywyd go iawn ynghylch anabledd dysgu, awtistiaeth a chyflogaeth.

## Amser Holi

I ddathlu diwedd y prosiect, gwnaethon ni gynnal sesiwn banel fywiog ar ffurf 'Question Time' ym Mae Caerdydd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfranogwyr, teuluoedd a sefydliadau partner. Roedd ein panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r 4 prif blaid wleidyddol yn y Senedd, a ymatebodd i gwestiynau meddylgar a heriol gan y gynulleidfa.

## Diolch i Hefin David MS

Diolchwn i'r diweddar Hefin David AS am ei gefnogaeth gyson i'r gymuned anabledd dysgu ledled Cymru, yn enwedig i'r prosiect Engage to Change. Roedd Hefin bob amser yn barod i wrando, i gefnogi, i sefyll a chodi ei lais ynghylch yr hyn yr oedd yn credu'n angerddol ynddo.

Byddwn yn ddiolchgar am byth ei fod wedi gweithio gyda staff ein prosiect a phobl ifanc, gan helpu i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru a gwneud Cymru'n lle gwell. Person gwirioneddol hyfryd, gofalgar a llawn hwyl y bydd cynifer o bobl yn ei golli.



Pobl yr 21ain Ganrif

## Uchafbwyntiau

- Cawson ni ein dewis fel un o sefydliadau partner Senedd Ieuenctid Cymru am y trydydd tro.
- Gwnaethon ni recriwtio Tammi Tonge i ddod yn Aelod o Senedd Ieuenctid newydd Cymru i siarad dros bobl ifanc anabl eraill.
- Gwnaethon ni drefnu 4 cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu i siarad am faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu.
- Gwnaethon ni hwyluso digwyddiadau ymgynghori ar gyfer Bwrdd Iechyd Abertawe ar arferion cyfyngol a chymorth ymddygiad cadarnhaol.
- Gwnaethon ni gefnogi'r ymgyrch Bywydau wedi'u Dwyn a dod yn aelodau o'r is-grŵp Cartrefi Nid Ysbytai.

**Mae Pobl yr 21ain Ganrif wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n dathlu pobl ag anabledd dysgu fel crewyr, cyfranwyr a dinasyddion Cymru, wrth herio stereoteipiau presennol.**

## Teuluoedd yr 21ain Ganrif

### Rhieni ag anabledd dysgu

Gwnaethon ni barhau i gefnogi grŵp rhieni Pobl yn Gyntaf y Fro i gyfarfod, rhannu profiadau a darparu cymorth gan gymheiriaid.

Gwnaethon ni gyhoeddi erthygl yng nghylchgrawn Plant yng Nghymru am yr heriau sy'n wynebu rhieni ag anabledd dysgu.

Aethon ni i fforwm proffesiynol Cysylltu Rhieni Cymru i rannu barn rhieni rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

Gwnaethon ni barhau i fynychu cyfarfodydd Grŵp Cynghori Cafcass Cymru i godi ymwybyddiaeth o anghenion rhieni ag anabledd dysgu mewn achosion gofal.

### Gwasanaethau iechyd rhywiol o ansawdd da

Ysgrifennodd yr aelod-sefydliad Cwmni Addysg Rhyw flog ar gyfer ein gwefan am gefnogi oedolion ag anabledd dysgu i gael cyfeillgarwch, perthnasoedd, rhamant, agosatrwydd a rhyw iach.

# Lleisiau'r 21ain Ganrif

## Senedd Ieuenctid Cymru

Gwnaethon ni gefnogi ein cyn-Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, Georgia, i recordio cyfweliad ac ysgrifennu erthygl yn rhannu ei phrofiad ac yn annog pobl ifanc eraill i ddilyn ei hôl troed.

Gwnaethon ni gais llwyddiannus i fod yn un o sefydliadau partner Senedd Ieuenctid Cymru am y trydydd tro. Gwnaethon ni gynnal ymgyrch recriwtio i ddod o hyd i berson ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gynrychioli Anabledd Dysgu Cymru. Gwnaethon ni hwyluso panel o bobl ifanc anabl i adolygu'r ceisiadau a gwneud eu dewis, ac roedden ni wrth ein bodd pan wnaethon nhw ddewis Tammi Tonge o ogledd Cymru.

Gwnaethon ni gefnogi Tammi i fynd i'r cyfarfod preswyl cyntaf ym Mae Caerdydd a rhoi ei haraith gyntaf yn y Senedd am fynediad cynhwysol at chwaraeon.




## Polisi a phobl – y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

Yn ein rôl fel cyd-ysgrifenyddion y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu, gwnaethon ni drefnu a hwyluso 4 cyfarfod, yr oedd cyfanswm o 107 o bobl yn bresennol ynddyn nhw. Roedd y pynciau yn cynnwys: Bywydau wedi'u Dwyn, hygyrchedd Etholiad Cyffredinol y DU, ymgyrch cymdeithas heb arian parod a chyflogaeth â chymorth.



# Pobl iach yr 21ain Ganrif

## Gwiriadau iechyd blynyddol

Gwnaethon ni gyfarfod â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru sy'n rheoli gwefan GIG 111 Cymru i ofyn eto am ychwanegu'r adnoddau meddygon teulu Hawdd eu Deall i'r wefan, ynghyd â dolenni i'r holl wybodaeth hawdd ei deall am sgrinio. Mae'r adnoddau i'w gweld ar ein gwefan, o dan Iechyd:
www.ldw.org.uk/cy/resources/

Cymeron ni ran mewn cyfweliad ar gyfer BBC Radio Cymru am bwysigrwydd gwiriadau iechyd blynyddol.

## Lleihau arferion cyfyngol

Gwnaethon ni helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gynnal digwyddiadau ymgynghori gyda phobl ag anabledd dysgu ar ddatblygu e-ddysgu a fideos hygyrch newydd ar arferion cyfyngol a chymorth ymddygiad cadarnhaol.

Mynychodd y Rheolwr Polisi, Sam Williams, gyfarfodydd Grŵp Diogelu Hawliau sy'n Diddymu Atal y DU a Chymuned Ymarfer Cymru ar gyfer Ymddygiadau sy'n peri Pryder.

Mewn partneriaeth â Gwelliant Cymru, gwnaethon ni ddatblygu a hyrwyddo pecyn adnoddau newydd ar gyfer gofalwyr yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o arferion cyfyngol.

Roedd Zoe yn cyd-gadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymyrraeth Gynnar ac Argyfwng a oedd yn edrych ar sut i fynd i'r afael â bylchau mewn cymorth a chadw pobl ag anabledd dysgu yn yr ysbyty heb angen.

Gwnaethon ni gefnogi'r ymgyrch Bywydau wedi'u Dwyn a dod yn aelod o is-grŵp Cartrefi Nid Ysbytai y Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu.





# Byw yn yr 21ain Ganrif

## Ynysigrwydd Cymdeithasol


Gwnaethon ni gyhoeddi erthygl am ddigwyddiad rhwydwaith Cysylltiadau Cymru (a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024) yn amlinellu sut mae gwasanaethau dydd wedi newid yng Nghymru ers y pandemig, a beth y gellir ei wneud i wella cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu.

Gwnaethon ni ymchwil gyda 130 o bobl ag anabledd dysgu yn ogystal â rhieni/gofalwyr a darparwyr gwasanaethau ledled Cymru i ddarganfod sut olwg sydd ar fywydau cymdeithasol pobl, a oes ganddyn nhw ffrindiau, a beth sy'n eu hatal rhag mynd allan. Yn anffodus, dywedodd llawer o bobl wrthym ni nad oes ganddyn nhw ffrindiau. Yr adroddiad hwn oedd y sail ar gyfer edrych ar pam mae angen Ffrind Gig ar bobl. Fe wnaethon ni lansio Ffrindiau Gig yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ym mis Gorffennaf 2024.

## Addysg gynhwysol

Gwnaethon ni gyhoeddi erthygl am adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar fynediad plant anabl a phobl ifanc at addysg a gofal plant.

Cymerodd Zoe ran hefyd yn fideo'r Pwyllgor i lansio'r adroddiad ac i dynnu sylw at yr heriau y mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu hwynebu yn system addysg Cymru.



## Uchafbwyntiau

- Gwnaethon ni weithio gyda 55 o sefydliadau ar fwy na 170 o ddarnau o waith Hawdd ei Ddeall.
- Gwnaethon ni ganllawiau Hawdd eu Deall am ddim i gefnogi pobl i bleidleisio yn Etholiad Cyffredinol y DU, ac i helpu pobl i ofyn am wybodaeth Hawdd ei Deall.




**Ochr yn ochr â chynhyrchu gwybodaeth Hawdd ei Deall i'n cleientiaid, rydyn ni wedi bod yn gwneud llawer o waith i godi ymwybyddiaeth o waith Hawdd ei Ddeall, gwella ansawdd gwybodaeth hygyrch, ac i gefnogi mwy o sefydliadau i wneud eu deunydd Hawdd ei Ddeall eu hunain.**

## Eich cefnogi i wneud eich gwybodaeth chi'n hygyrch

Rydyn ni wedi cefnogi llawer o sefydliadau i gynhyrchu eu deunydd Hawdd ei Ddeall eu hunain. Mae hyn wedi cynnwys cynnig ein gwasanaethau am ddim, darparu adborth a chyngor, a rhannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu gan bobl ag anabledd dysgu.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn datblygu ein gwefan Hawdd ei Ddeall Cymru ein hunain, a fydd yn lansio yn 2025.

Bydd yn cynnwys llawer o adnoddau newydd:

- Fideos sy'n darparu hyfforddiant Hawdd ei Ddeall
- Geiriadur geiriau anodd
- Canllawiau Hawdd ei Ddeall ar gyfer y Gymraeg
- Negeseuon blog a fydd yn rhannu awgrymiadau ynghylch pethau fel cynllunio ar gyfer hygyrchedd.

## Gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agosach gyda phobl ag anabledd dysgu ac yn cael mwy o'u mewnbwn a'u hadborth. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'n gwasanaeth a safon ein gwasanaethau cyfieithu a dylunio.

Gwnaethon ni weithio gyda phobl ag anabledd dysgu i:

- Geisio barn am ein canllawiau Hawdd ei Ddeall yn Gymraeg, er mwyn gwella ansawdd ein gwaith Hawdd ei Ddeall yn Gymraeg.
- Helpu Endometriosis Cymru i greu tudalennau gwe hawdd eu deall.
- Creu fersiynau Hawdd eu Deall o gyfarwyddiadau'r Pecyn Casglu Iechyd Rhywiol, i helpu pobl i ofalu am eu hiechyd rhywiol trwy brofi am glefydau a drosglwyddir yn rhywiol ym mhreifatrwydd eu cartrefi eu hunain.
- Mynnu adborth am waith Hawdd ei Ddeall a thrafod syniadau ar gyfer creu fideos Hawdd eu Deall.

## Codi ymwybyddiaeth a gwella ansawdd

Fe wnaethon ni gymryd rhan mewn digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn i rannu syniadau a chysylltu ag eraill.

Gwnaethon ni ymuno â Gweithgor Safonau Hawdd ei Ddeall y DU. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr Hawdd ei Ddeall eraill i wella ansawdd gwaith Hawdd ei Ddeall yn y DU trwy greu safonau cydnabyddedig.

Mae mwy o wybodaeth yma:
[www.linkedin.com/company/uk-easy-read-standards-working-group/](https://www.linkedin.com/company/uk-easy-read-standards-working-group/)

Gwnaethon ni gymryd rhan yn un o weminarau Llywodraeth y DU fel panelwyr arbenigol, yn cefnogi staff y llywodraeth i wneud eu gwybodaeth am ddyledion yn fwy hygyrch.




**I weld mwy o wybodaeth, help a chyngor, neu i gael dyfynbris, cysylltwch â ni yn [easyread@ldw.org.uk](mailto:easyread@ldw.org.uk).**

# Digwyddiadau a hyfforddiant

## Uchafbwyntiau

- Daeth bron 200 o bobl i'n cynhadledd flynyddol yng Nghyffordd Llandudno ac Abertawe.
- Roedd y gynhadledd yn trafod cael dewis a rheolaeth dros yr hyn rydyn ni'n ei wneud gyda'n bywydau bob dydd.
- Gwnaethon ni drefnu 3 digwyddiad ledled Cymru yn siarad am ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Comisiynu ar gyfer Bywyd Da'.
- Gwnaethon ni gynnal 13 o gyrsiau hyfforddi Hawdd ei Ddeall a gweithio gydag RNIB Cymru ar hyfforddiant am golli golwg.

### Cynhadledd Flynyddol 2024 – Diwrnod yn Fy Mywyd

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd ein cynhadledd flynyddol dros 2 ddiwrnod bywiog yng Nghyffordd Llandudno ac Abertawe, a chroesawyd bron 200 o gynadleddwyr o bob cwr o Gymru.

Roedd y gynhadledd yn archwilio themâu dewis, rheoli a bywyd bob dydd, ac roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Gweithdai rhyngweithiol ar waith, hamdden, cyfleoedd yn ystod y dydd a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Drama, ffilmiau a chyflwyniadau dan arweiniad pobl ag anabledd dysgu.

Rhaid i ni gofio sôn am ein Cadeiryddion anhygoel yn y ddau ddigwyddiad. Dychwelodd Victoria Waller, hunan-eiriolwr a Gwirfoddolwr Cyfryngau Cymdeithasol Ffrindiau Gig Cymru, i gynnal y digwyddiad yng ngogledd Cymru, ac arddangosodd Richie Horrigan, un o gyfranogwyr Ffrindiau Gig, ei ddoniau am y tro cyntaf yn ne Cymru.

Mae fideos ac adnoddau o'r gynhadledd ar gael ar ein gwefan: www.ldw.org.uk/cy/event/cynhadledd-flynyddol-2024/.











## Comisiynu ar gyfer Bywyd Da – Gwrando, Dysgu, Arwain

Rydyn ni wedi bod yn archwilio sut mae'r canllawiau Cymreig, 'Comisiynu llety a chefnogaeth ar gyfer bywyd da i bobl ag anabledd dysgu' yn cael eu defnyddio'n ymarferol.

Mewn partneriaeth â Cymorth Cymru a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, dechreuon ni drwy gasglu mewnwelediadau gan ddefnyddio arolwg ar-lein, gan estyn allan at gomisiynwyr, darparwyr cymorth, gofalwyr teuluol a phobl ag anabledd dysgu.

Gosododd y lleisiau hyn y sylfaen ar gyfer 3 digwyddiad difyr ledled Cymru. Gwnaethon ni rannu'r myfyrdodau gyda'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu i helpu i lunio polisïau a chymorth yn y dyfodol.

## Hyfforddiant

Gwnaethon ni gyflwyno 13 o gyrsiau hyfforddi am wneud gwybodaeth yn haws i'w darllen a'i deall. Roedd hyn yn cynnwys cymysgedd o gyrsiau a sesiynau mynediad agored yn benodol ar gyfer sefydliadau unigol.

Ar y cyd ag RNIB Cymru, gwnaethon ni hefyd gynnal cwrs arbenigol ar gefnogi pobl ag anabledd dysgu sy'n profi colli golwg.

**Dewch o hyd i fanylion ein holl hyfforddiant a digwyddiadau ar ein gwefan:** [www.ldw.org.uk/cy/training-events](www.ldw.org.uk/cy/training-events)**.**

## Uchafbwyntiau

- Gwnaethon ni gefnogi’r brotest Bywydau wedi’u Dwyn y tu allan i’r Senedd a chreu fersiwn Hawdd ei Ddeall o’u maniffesto.
- Gwnaethon ni ymateb i 7 ymgynghoriad.
- Gwnaethon ni drefnu 4 cyfarfod o’r Grŵp Polisi Anabledd Dysgu i siarad am faterion pwysig fel prawf adnabod i bleidleisio a’r ymgyrch yn erbyn cymdeithas heb arian parod.
- Gwnaethon ni roi tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol drafft ynghylch taliadau uniongyrchol i bobl sy’n cael cyllid gofal iechyd parhaus.

## Ymgynghoriadau

Er y ffaith nad oes gennym Swyddog Polisi a Chyfathrebu ers 5 mis, gwnaethon ni lwyddo i ymateb i 7 ymgynghoriad ar faterion fel gofal cymdeithasol, cyflogaeth, diwylliant, addysg ac iechyd i sicrhau bod hawliau a phrofiadau pobl ag anabledd dysgu a’u cefnogwyr yn cael eu cydnabod gan lunwyr polisi yng Nghymru.

## Bywydau wedi’u Dwyn – Cartrefi Nid Ysbytai

Gwnaethon ni gefnogi’r ymgyrch Bywydau wedi’u Dwyn, gan ymuno â lleisiau pobl ag anabledd dysgu, rhieni a gofalwyr, yn galw am roi diwedd ar gadw pobl ag anabledd dysgu yn yr ysbyty am gyfnodau hir. Roedd ein gwaith yn cynnwys polisi a lobïo, creu fersiwn hawdd ei ddeall o faniffesto’r ymgyrch a chefnogi’r ymgyrch trwy waith cyfathrebu.

Cynhaliwyd protest enfawr ‘Cartrefi Nid Ysbytai’ y tu allan i’r Senedd ar 17 Ebrill. Llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau dadl yn y Senedd ar 4 Rhagfyr.




Cafodd ein Prif Swyddog Gweithredol, Zoe Richards, ei chyfweld gan BBC Cymru ac ITV Cymru am y brotest a’r materion yn ymwneud â sicrhau nad oes neb yn byw mewn ysbyty. Cyfarfu hefyd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod yr ymgyrch.

## Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol drafft

Rhoddodd ein Rheolwr Polisi, Sam Williams, dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar y bwriad arfaethedig i gyflwyno taliadau uniongyrchol i bobl sy’n cael cyllid gofal iechyd parhaus, a sut y dylid gweithredu hyn.



## Grŵp Polisi Anabledd Dysgu

Gwnaethon ni drefnu a hwyluso 4 cyfarfod o'r Grŵp Polisi Anabledd Dysgu, gan ddod â swyddogion polisi sy'n gweithio yn y sector anabledd dysgu ynghyd i drafod materion perthnasol. Roedd y pynciau'n cynnwys: arolwg o wasanaethau dydd, newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogion, cymdeithas heb arian parod, prawf adnabod i bleidleisio a'r ymgyrch Bywydau wedi'u Dwyn.



## Niwroamrywiaeth a gwrth-hiliaeth Celfyddydau Cymru (NGCC)

Gwnaethon ni weithio gyda Hijinx a Celfyddydau Anabledd Cymru ar brosiect i wneud ein sefydliadau'n fwy perthnasol i grwpiau, sefydliadau a phobl amrywiol.

## Bwrdd Cynghori Oedolion Comisiynydd Plant Cymru

Mae Zoe yn aelod o Fwrdd Cynghori Oedolion Comisiynydd Plant Cymru. Y flwyddyn hon, mae hi wedi bod yn ymwneud â gosod yr agenda ar gyfer y swyddfa a sicrhau bod plant anabl wrth wraidd yr hyn maen nhw'n ei wneud.

## Eich hysbysu

Mae ein gwaith cyfathrebu yn rhedeg trwy bopeth rydyn ni'n ei wneud, o roi cyhoeddusrwydd i'n digwyddiadau, ein prosiectau a'n gwaith polisi, i rannu'r newyddion diweddaraf gyda chi am anabledd dysgu.

Roedd y pynciau a drafodir ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:

- Pam mae Anabledd Dysgu Cymru yn herio'r cynlluniau i godi uchafswm y taliadau am ofal a chymorth.
- Cefnogi oedolion ag anabledd dysgu i gael cyfeillgarwch, perthnasoedd, rhamant, agosatrwydd a rhyw iach.
- Stori Georgia – fy nghyfnod fel Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru.

# Ffrindiau Gig Cymru

www.gigbuddies.cymru

## Uchafbwyntiau

- Paru 27 pâr o ffrindiau newydd a recriwtio 32 o wirfoddolwyr newydd.
- Lansio Ffrindiau Gig yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot.
- Wedi cael gweddnewid gyda logo newydd.



## Ledled Cymru

- Er mwyn gwneud prosiectau Ffrindiau Gig ledled y DU yn hawdd eu hadnabod, rydyn ni i gyd wedi mabwysiadu logos tebyg. Dyluniwyd ein logo newydd wrth gyd-gynhyrchu gyda'n ffrindiau.
- Siaradodd ffrindiau ar y teledu am broblemau cymdeithas heb arian parod a phroblemau trafnidiaeth yng ngogledd Cymru. Roedden ni hefyd wedi'n cynnwys yng nghylchgrawn Golwg360 ac ar BBC 6 Music.
- Gwnaeth y Wobr Gerddoriaeth Gymreig ein dewis ni fel eu partner elusennol swyddogol. Aeth 40 o ffrindiau i'r gwobrau ac roedd un o'r ffrindiau o Gaerdydd, Richie, yn feirniad ar gyfer y wobr.
- Mae ein gwirfoddolwr cynnwys cyfryngau cymdeithasol, Victoria, yn parhau i greu cynnwys gwych a'i gyflwyno yn AdFest Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.
- Mae gennym dros 1,500 o ddilynwyr ar Instagram erbyn hyn, a 3,400 o ddilynwyr ar Facebook. Rydyn ni hefyd ar TikTok!
- Roedden ni'n falch o gael 2 ffrind yn cadeirio cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru - Victoria yng Nghyffordd Llandudno, a Richie yn Abertawe.

## Caerdydd

Gwnaethon ni recriwtio 32 o wirfoddolwyr newydd a gwneud 14 pâr newydd. Erbyn hyn, mae gyda ni 49 o barau Ffrindiau Gig yng Nghaerdydd!

Gwnaethon ni drefnu 20 o ddigwyddiadau cymdeithasol gyda ffrindiau, gan gynnwys cerddoriaeth fyw, karaoke, gwallgolff, reslo, clybiau, a Pride Cymru.

Mae Ffrindiau hefyd wedi helpu i ledaenu'r gair am Ffrindiau Gig mewn cwmni mawr o'r enw Maximus, Gŵyl Sŵn, ffair yrfaoedd y Diwydiannau Creadigol a gwyliau! Ymunodd grŵp o ffrindiau â Gig Buddies Bristol i wylio Busted!






## Gogledd Cymru

Gwnaethon ni recriwtio 13 o wirfoddolwyr newydd a gwneud 12 pâr.

Mae ffrindiau yn cynllunio eu digwyddiadau cymdeithasol eu hunain. Gwnaethon nhw drefnu 8 digwyddiad cymdeithasol gan gynnwys prydau allan, mynd i gybiau, sioe dalent a thwrnamaint pŵl.

Gwnaeth ffrindiau ein helpu i ledaenu'r neges yn Focus Wales, gŵyl fwyd Caernarfon, Plum Fest a sioe'r Fflint a Sir Ddinbych.

Gwnaethon ni feithrin perthnasoedd yn y cymunedau fel Piws (sefydliad hygyrchedd), rhwydwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cynghorau gwirfoddol sirol, Comisiynydd yr Heddlu a sefydliadau sy'n cynrychioli mwyafrifoedd byd-eang.

**"Doeddwn i ddim yn mynd i chwaraeon byw o'r blaen oherwydd torfeydd, roeddwn i'n nerfus. I fynd gyda Julian, rwy'n teimlo'n ddiogel gydag ef, mae'n hoffi chwaraeon, rydyn ni'n cael hwyl ac yn chwerthin. Rwy'n teimlo fel oedolyn – yn hyderus, ac mae gen i'r rhyddid i fynd allan ac i aros allan yn hwyr".**
*Morgan a Julian*



## Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

Dechreuodd y prosiect ym mis Gorffennaf ac mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Treuliwyd amser mewn cymunedau yn meithrin perthnasoedd. Ymunodd 36 o gyfranogwyr newydd, a daeth rhai ohonynt o'n sesiynau galw heibio. Gwnaethon ni recriwtio 5 gwirfoddolwr a gwneud 2 bâr. Roedd ein lansiad ym Mhort Talbot yn cynnwys noson gerddoriaeth a gemau y daeth 50 o bobl iddi, gan gynnwys teuluoedd.

Daeth 170 o bobl i'n gig lansio yn Abertawe, lle mai Adwaith oedd y prif berfformwyr. Nid oedd llawer ohonyn nhw erioed wedi mynd i gig cerddoriaeth fyw o'r blaen. Bu pobl ag anabledd dysgu'n cymysgu â chefnogwyr cerddoriaeth fyw eraill ac yn 'aros i fyny yn hwyr' mewn gofod prif ffrwd hygyrch a chwbl gynhwysol. Richie Horrigan, un o gyfranogwyr Ffrindiau Gig, oedd yn llywyddu ar y noson.

Cynhaliwyd dros 10 o ddigwyddiadau cymdeithasol, gyda ffocws ar roi cynnig ar bethau newydd a ffrindiau'n ymwneud â chynllunio eu digwyddiadau eu hunain. Cawson ni daith tu ôl i'r llenni o amgylch arena Abertawe, gwnaethon ni aros allan yn hwyr ym Mhort Talbot ac aethon ni i bantomein ar gyfer oedolion yng Nghastell-nedd, i enwi ond ychydig! Hefyd, aeth ffrindiau i Solo Presents – sef gŵyl ddeuddydd ym Mharc Margam.

Rydyn ni'n llawn cyffro o fod yn meithrin perthynas â Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe ac rydyn ni'n gobeithio y bydd yn arwain at fwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu brofi chwaraeon byw a helpu i wella hygyrchedd yn y clwb.

**"Mae'n teimlo mor dda i fod allan yn y dref ar nos Wener - yn enwedig gyda fy ffrindiau"** *un o gyfranogwyr Ffrindiau Gig*


**"Gwaith anhygoel mewn cyfnod mor fyr o amser! Methu aros i weld beth mae 2025 yn ei gynnig!!"** *Rhiant/gofalwr*






**Gwirfoddolwch fel Ffrind Gig**
**www.gigbuddies.cymru**

# Ein staff



**Zoe Richards** - Prif Swyddog Gweithredol

## Polisi a Chyfathrebu




**Samantha Williams**
Rheolwr Polisi a Chyfathrebu

**Kai Jones**
Swyddog Cyfathrebu

**Beth Rees**
Swyddog Polisi a Chyfathrebu
(o fis Chwefror 2025)

**Aled Blake**
Swyddog Polisi a Chyfathrebu
(tan fis Medi 2024)

## Cymorth




**Iwan Good**
Cydlynydd Aelodaeth, Digwyddiadau ac Ymgysylltu

**Nicola Alsept**
Gweinyddydd Cyllid

**Michael Allcock**
Glanhawr

**Julie Jenkins**
Cydlynydd Cymorth Gweinyddol


## Adnoddau Dynol a Chyllid



**Zhanar Tabeyeva**
Rheolwr Cyllid

**Joanne Moore**
Rheolwr Adnoddau Dynol a Llywodraethiant


## Datblygu Busnes a Chodi Arian



**Elizabeth Davidson-Henery**
Rheolwr Datblygu Busnes
(o fis Ionawr 2025)

**Julie Sangani**
Rheolwr Rhwydweithio a Chodi Arian
(o fis Medi 2024)


## Digwyddiadau a Rhwydweithiau



**Simon Rose**
Rheolwr Digwyddiadau a Rhwydweithiau

**Lucy O'Leary**
Cydlynydd Digwyddiadau a Rhwydweithiau

## Hawdd ei Ddeall Cymru




**Laura Griffiths**
Rheolwr Cyfathrebu Hygyrch

**Inacia Rodrigues**
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

**Julie Jones**
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

**Rhian McDonnell**
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch


## Llywio a Dylanwadu ar Engage to Change



**Angela Kenvyn**
Rheolwr Prosiect

**Gerraint Jones-Griffiths**
Llysgennad

## Ffrindiau Gig Cymru



**Karen Warner**
Rheolwr Arloesedd

**Kai Jones**
Swyddog Datblygu Prosiect

**Kylie Smith**
Cydlynydd De Cymru

**Danielle Wagstaff**
Cydlynydd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot

**Sian Lloyd-Davies**
Cydlynydd Gogledd Cymru

**John Butterly**
Cydlynydd Gwirfoddolwyr Gogledd Cymru

**Emma Scott-Davies**
Cydlynydd Cymorth
(o fis Hydref 2024)

# Ein hymddiriedolwyr a’n haelodau

## Ymddiriedolwyr

Mae ein hymddiriedolwyr yn cwblhau tymor o 3 blynedd ac fe etholir ymddiriedolwyr newydd yn ein CCB bob blwyddyn. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn ymddiriedolwr, e-bostiwch joanne.moore@ldw.org.uk.

| **Cymuned o Ddiddordeb** Cynrychiolwyr Aelodau Llawn | **Nifer y seddi** | **Ymddiriedolwyr** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|---|---|
| Darparwyr oedolion | 2 | Rhian Jones<br>Claire Higgins | Drive<br>Anheddau Cyf |
| Hunan-eiriolaeth | 2 | James Tyler<br>Angharad Williams | Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan<br>Eiriolaeth Eich Llais |
| Gofalwyr teuluol | 2 | Adele Rose-Morgan<br>Richard Cox | Joining the Dots<br>Ategi |
| Darparwyr cymorth i deuluoedd | 2 | Lynne Whistance<br>Sana Tabassum Shaikh | Grŵp Pobl<br>EYST |
| Cyflogaeth â chymorth | 1 | Gwag | |

| **Seddi agored** | **Nifer y seddi** | **Ymddiriedolwyr** |
|---|---|---|
| Unigolion sydd â diddordeb | 6 (hyblyg) | Tracy Hammond (Cadeirydd), Stephen Cox, Ramona Murray, Jonathan Griffiths, Georgia Miggins, Nadine Honeybone |

**Cynghorwyr**: Steve Beyer a Kathryn Whitfield


## Aelodau a chefnogwyr

| **Math o aelodaeth** | **Nifer yr aelodau** |
|---|---|
| **Aelodau** | 95 |
| **Cefnogwyr** | 2,359 |




**Os hoffech chi ddod yn aelod neu’n gefnogwr, mae’r holl fanylion ar ein gwefan: www.ldw.org.uk/cy/about-us/dod-yn-aelod/**

# Sut y gwnaethon ni wario ein harian



## Yr arian a gawson ni'r flwyddyn hon

| Ffynhonnell arian | Swm |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £400,000 (42.48%) |
| Prosiectau'r DU | £325,398 (34.56%) |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | £22,771 (2.42%) |
| Ymgynghoriaeth, rhwydweithiau a gwasanaethau cynnal | £165,828 (17.61%) |
| Rhoddion | £981 (0.10%) |
| Llog banc | £26,692 (2.83%) |
| **Cyfanswm** | **£941,670 (100.00%)** |



## Yr arian a wariwyd gennym y flwyddyn hon

| Categori | Swm |
|---|---|
| Staff a theithio | £698,200 (71.68%) |
| Grantiau i bartneriaid prosiect y DU | £92,585 (9.51%) |
| Cyrsiau a chynadleddau | £31,055 (3.19%) |
| Gofalu am ein hadeilad | £37,289 (3.83%) |
| Digwyddiadau prosiect | £51,378 (5.27%) |
| Rhedeg y swyddfa | £34,690 (3.56%) |
| Costau llawrydd | £2,573 (0.26%) |
| Cyfieithu | £18,193 (1.87%) |
| TAW na ellir ei adennill | £3,288 (0.34%) |
| Ffioedd archwilio | £3,690 (0.38%) |
| Dibrisiad | £858 (0.09%) |
| Cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr | £264 (0.03%) |
| **Cyfanswm** | **£974,063 (100.00%)** |

## Canlyniad ddiwedd y flwyddyn:

**Mae'r diffyg o £32,393 yn cynnwys diffyg anghyfyngedig o £32,393 ar ôl trosglwyddiadau a diffyg cyfyngedig o £dim.**

# Our year in pictures

# Ein blwyddyn mewn lluniau











GIG
BUDDIES
CYMRU
PALESTINE
Volunteer as a
Gig Buddy
Make a new
Friend
Go to gigs and more
Together

# Ein blwyddyn mewn niferoedd

## Ebrill 2024 i Fawrth 2025

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

## Dylanwadu ar bolisi




Ymatebwyd i 7 ymgynghoriad



Trefnwyd 4 cyfarfod o’r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




Cefnogwyd 1 protest Cartrefi Nid Ysbytai

## Hawdd ei Ddeall Cymru



Wedi gweithio gyda 55 o gleientiaid

Hawdd ei Ddeall

Wedi gwneud dros 170 o ddarnau o waith Hawdd ei Ddeall




Wedi’i wneud 2 ganllaw Hawdd ei Ddeall newydd am ddim

## Eich hysbysu



25 erthygl newyddion ar ein gwefan

1 cyfrif Bluesky newydd



28,000 o ymwelwyr â’r wefan

6,565 o ddilynwyr ar Facebook

## Digwyddiadau a Rhwydweithiau



Daeth bron 200 o bobl i’n cynadleddau blynyddol yn Abertawe a Chyffordd Llandudno



3 digwyddiad yn ymwneud â chomisiynu canllawiau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu



13 sesiwn hyfforddi ar wneud gwybodaeth yn hygyrch

## Llywio a Dylanwadu ar Engage to Change



Mae interniaethau â chymorth bellach yn cael eu cynnig ym mhob un o’r 13 coleg AB yng Nghymru



Mae 5 coleg yn peilota Fframwaith Sicrhau Ansawdd Interniaethau â Chymorth



4 digwyddiad yn rhannu canfyddiadau’r prosiect

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1 ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynnwys cyflogaeth â chymorth mewn rhaglenni yn y dyfodol

## Ffrindiau Gig Cymru




1 prosiect newydd – Abertawe, Castell-nedd Port Talbot



50 o wirfoddolwyr newydd ledled Cymru



28 o barau ffrindiau gig newydd



32 o ddigwyddiadau cymdeithasol ledled Cymru